# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **15fed Rhagfyr 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorwyr Dafydd Meurig a Dilwyn Morgan** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Teitl yr Eitem:** | **LLYTHYR BLYNYDDOL AROLYGAETH GOFAL CYMRU** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Yn dilyn cyhoeddi Llythyr Blynyddol Arolygaeth Gofal Cymru (AGC), gofynnir i aelodau'r Cabinet ystyried cynnwys y llythyr a'i dderbyn.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae rhannu dyfarniad yr AGC ar berfformiad ein gwasanaethau cymdeithasol yn gyhoeddus yn arfer dda mewn democratiaeth. Mae'n bwysig bod y Cabinet yn cael y cyfle i gytuno ar unrhyw ymateb neu weithrediad all fod ei angen, neu beidio, yn dilyn cyhoeddi'r llythyr.

### 3. CYFLWYNIAD

3.1. Mae'r AGC yn cynnal adolygiadau blynyddol o berfformiad pob Awdurdod Lleol o ran cyflawni eu swyddogaethau statudol wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r adolygiadau yn cael eu cynnal yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasnaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

3.2. Mae llythyr yr AGC yn **Atodiad 1** yn mesur perfformiad Cyngor Gwynedd dros y cyfnod Ebrill 2019 hyd at Mawrth 2020. Bwriad y llythyr yw edrych yn ôl a gwerthuso perfformiad a chynnig unrhyw welliannau i'r dyfodol, er mwyn cynorthwyo'r Cyngor a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

3.3. Er gwaethaf Covid-19, mae'r Cyngor ac AGC wedi llwyddo i gyfarfod a chael cyfle i drafod cynnwys y llythyr dros y misoedd diwethaf, a chredaf ei bod yn gywir i ddweud bod pawb o'r farn ei fod yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa.

### 4. EIN HYMATEB I'R LLYTHYR

4.1. Yn gyntaf, rydym yn croesawu derbyn adolygiadau a sylwadau adeiladol fydd yn ein galluogi i gryfhau, ble bo angen, ein gwasanaethau i bobl Gwynedd. Nid adroddiad gan y AGC yw hwn, ond yn hytrach llythyr cyffredinol ei naws. Mae felly'n fwy o sylw cyffredinol ar eu barn o'n gwasanaethau cymdeithasol yn hytrach nag yn adroddiad manwl.

4.2. Eleni mae AGC wedi neilltuo Arolygydd Cyswllt sy'n gallu siarad Cymraeg fel y cyswllt rhyngddynt â'r Cyngor, ac rydym yn croesawu hyn wrth gwrs. Mae'r gallu i gyfathrebu a darllen Cymraeg wedi hwyluso'r gwaith o ddadansoddi ein trefniadau mewnol, ond hefyd bydd yn hanfodol os am fesur yn effeithiol barn ein trigolion am ein gwasanaethau.

4.3. Mae'r llythyr yn cydnabod bod 'gan Gyngor Gwynedd weithlu sefydlog, medrus a phrofiadol o hyd'. Gwnaed y sylw hwn am ei staff yn ystod 2019/20, ond mae heriau Covid-19 yn 2020 wedi profi'n ddiamheuaeth bod hyn yn parhau'n wir. Rydym yn hynod falch ac yn ddiolchgar o'n staff yn yr Adrannau Oedolion a Phlant, ac hefyd mewn adrannau eraill, sy'n darparu gofal a chefnogaeth i drigolion Gwynedd. Wrth gwrs hefyd, mae ein diolch yn fawr i'n darparwyr annibynnol, trydydd sector a gofalwyr di-dâl am eu gwaith hwythau dros y cyfnod heriol yma.

4.4. Mae cynnwys y llythyr hwn, a chanlyniad pob arolygiad neu 'gweithgareddau â ffocws' eraill y mae AGC yn eu cynnal ar Gyngor Gwynedd, yn derbyn sylw priodol yn y Tîm Statudol, sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Phenaethiaid Adrannau Plant a Chefnogi Teuluoedd, ac Oedolion a Llesiant. Mae aelodau'r tîm yn cynnal y cyswllt cyson gyda'r arolygydd cyswllt o'r AGC, er mwyn cytuno ar gynlluniau gweithredu wrth ymateb i ganlyniad arolygiadau. Yn ddibynnol ar y maes gwaith dan sylw, ar gwasanaeth penodol, mae'r Pennaeth perthnasol yn ystyried argymhellion o'r arolygiadau neu gweithgareddau, gan gynhyrchu cynllun gweithredu i gyd-fynd â'r argymhellion.

4.5. Yn fwy aml na pheidio, mae argymhellion a sylwadau'r arolygaeth yn cyd-fynd ag asesiad a barn ein rheolwyr am beth sydd angen ei gryfhau a gwella. Ni fydd yn syndod felly bod y risgiau o fewn y gofrestr risg ac ein cynlluniau a rhaglenni gwaith yn aml yn cyd-fynd â'r hyn mae'r arolygaeth yn nodi, a gwelwn yma bod y materion sydd wedi eu codi o fewn y llythyr yn faterion sydd yn derbyn sylw o fewn cynlluniau'r ddwy adran ac wedi eu nodi o fewn cofrestr risg yr adran. Gyda rhai materion, fel sydd wedi eu nodi yn 4.9 isod mae cynllun gweithredu penodol wedi ei rhoi at ei gilydd i ymateb yn benodol i faterion y bu i'r arolygaeth amlygu mewn gweithgaredd ffocws yn yr Adran Oedolion.

4.6. Mae yna lawer iawn o wybodaeth fwy manwl am berfformiad ein gwasanaethau cymdeithasol eisoes wedi ei gyhoeddi fel y gwyddoch, felly er mwyn darllen ymhellach ewch i Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20, ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2019/20. Mae AGC wedi cadarnhau ar lafar eu bod yn fodlon gyda chynnwys yr adroddiadau hyn fel adlewyrchiad teg a chytbwys o berfformiad.

4.7. Mae'r llythyr yn cyfeirio at nifer o gryfderau yn y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ar hyn o bryd. Rydym yn cytuno â'r canlyniadau yma ac yn falch iawn o'r sylw mae'r arolygaeth yn ei roi i'r llwyddiannau hyn, ac fe fydd y gwasanaethau hynny yn parhau i'r dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys: 'Dementia Go', gwasanaeth yn newis iaith yr unigolyn, tîm o fewn gwasanaethau plant sy'n ymateb i'r agenda 'Atal', cynnal adolygiadau diwedd lleoliad i blant, a gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu gwasanaethau.

4.8. Mae'r llythyr hefyd yn cyfeirio at nifer o heriau, nifer ohonynt yn rai allanol nad oes gan y Cyngor fawr o reolaeth lawn drostynt, ac maent yn cynnwys: niferoedd plant sydd angen gofal gan y Cyngor yn parhau i gynyddu, oedi wrth ddarparu adnoddau yn arafu'r broses o ddychweld gartref o'r ysbyty, a recriwtio staff yn enwedig i'r maes gofal. Fel y bydd aelodau'r Cabinet yn ymwybodol, mae yna gynlluniau eisoes ar waith er mwyn ymateb i'r heriau yma, ac er nad ydym yn gweld y byddwn wedi 'datrys' neu gael gwared ar yr heriau yn gyfangwbl, rydym yn gwneud ein gorau, drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill, i leddfu'r effaith mae'r materion yma yn eu cael ar ein trigolion.

4.9. Yn olaf, mae'r llythyr yn cyfeirio at rai meysydd ble y mae AGC am barhau i fonitro: Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid, sicrhau bod llais yr unigolyn wrth wraidd y gwaith o gynllunio gofal, parhau i sicrhau fod trefniadau diogelu a chydbwyso risgiau yn derbyn sylw ochr yn ochr â rheoli'r galw, a ddatblygu a deall pryd y gallai eiriolwr gefnogi'r gwaith o bennu a chyflawni canlyniadau.

4.10. Mae'r Cyfarwyddwr, ynghyd â'r ddau Bennaeth Adran (Oedolion a Phlant) yn fodlon bod y materion sydd wedi eu nodi o fewn y llythyr ac sydd angen sylw, yn rhan o raglenni gwaith sydd eisoes o fewn Cynllun y Cyngor, neu yn rhan o gynlluniau gweithredu penodol. Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer trafod y cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn gyda'r Arolygydd Cyswllt yn rheolaidd.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. Gofynnir i'r aelodau Cabinet ystyried cynnwys y llythyr gan y AGC, ynghyd â'r farn gan y Cyfarwyddwr a'r ddau Bennaeth maes gofal, ac i amlygu unrhyw fater y credir sydd angen sylw uwchben y camau sydd eisoes yn eu lle.

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Pe byddai angen unrhyw weithrediad newydd yn sgil derbyn llythyr blynyddol Arolygaeth Gofal Cymru, dylai unrhyw gais am ymrwymiad ariannol gael ei gyflwyno trwy gyfundrefn 'bidiau' arferol y Cyngor. Ar wahân i nodi hynny, does gen i ddim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.